

CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 3ydd Tachwedd 2021 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs. J. Butterfield YH, MBE, K.R. Jones, Mrs. D. King, Ms. J. McAlpine, A.J. Rutherford, a Miss C. Williams.

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorydd T. Thomas (yn arsylwi)
Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

30. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J. Ball, Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs. P.M. Jones, Miss S. Roberts.

31. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y nodir isod a **PHENDERFYNU** arnynt fel a ganlyn.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

Nodyn 2: Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych yn ddiweddar wedi datgan argyfwng yr hinsawdd yn ffurfiol ac felly byddent yn dymuno bod camau'n cael eu cymryd nawr gan ddatblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio i sicrhau bod holl geisiadau mwy ar gyfer datblygiad yn gwneud y defnydd mwyaf o dechnolegau presennol i leihau'r effaith ar yr hinsawdd.

ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO

31.1

LLEOLIAD Y SAFLE: 3 Elwy Street, y Rhyl

WARD: Bodfor

CYNGHORWYR Y WARD: Ms J. Hughes
 Ms J. McAlpine

RHIF Y CAIS: 45/2021/0716

DISGRIFIAD: Newid defnydd tŷ aros yn ganolfan asesu teuluoedd (yn ymgorffori chwe uned llety dros dro a llety staff)

YMGEISWYR: Mrs. Karen Waring, 38.6 Solutions Ltd., 50 Bath Street, y Rhyl

PENDERFYNIAD: Gwrthwynebiad

Mae'r Cyngor yn bryderus bod:

Y cynllun presennol ar gyfer yr eiddo yn dangos bod saith llofft i westeion ac 1 llety i Reolwr

- 1 llofft ar y llawr daear (Rheolwr)
- 4 llofft ar y llawr cyntaf, a
- 3 llofft ar yr ail lawr.

Er bod y disgrifiad ar gyfer y datblygiad arfaethedig ar gyfer "chwe uned o lety dros dro a llety staff" nid hyw hyn yn cael ei ddangos ar y Cynllun Arfaethedig a gyflwynwyd (4005-04-A) sydd ond yn dangos

- 1 llofft ar y llawr daear (Rheolwr?)
- 4 llofft ar y llawr cyntaf a
- dim ond lle storio/ystafell staff ar yr ail.

Felly nid yw'n glir o'r dogfennau a gyflwynwyd lle byddai'r chwe uned yn cael eu lleoli o fewn y cynllun llawr.

Gofynnir felly am esboniad o ran y nifer o unedau a gynigir a lleoliad y llofftydd ac a yw'r rhain yn cydymffurfio gyda gofynion lle byw lleiaf.

Natur y cynnig yw y bydd gan drigolion fynediad at lofftydd en-suite ond yn rhannu cyfleusterau cyffredin eraill megis cegin a lle bwyta. Mae'r Cyngor yn bryderus bod y mannau cyffredin arfaethedig yn rhy fach ar gyfer nifer tebygol y deiliaid a bydd yn arwain at ordyrru. Yn benodol, mae'r ardal fwyta wedi ei lleihau yn arwyddocaol o'r ddarpariaeth bresennol yn y Tŷ Aros a nodir hefyd y diffyg o le chwarae yn yr awyr agored i blant fel mater o bryder.

Mae'r Cyngor hefyd yn bryderus bod defnydd yr eiddo fel y'i cynigir yn debyg iawn i Tŷ Aml-ddeiliadaeth. Er bod y Cyngor yn derbyn y bydd teuluoedd unigol ond yn byw yno am 12 wythnos ar y mwyaf, mae'r ymgeisydd yn awgrymu bod y galw am y math hwn o eiddo yn fwy na'r cyflenwad ac felly mae'r eiddo yn debygol o aros ar y lefel breswyliaeth uchaf. Mae'r Cyngor felly yn holi a fyddai'r cynnig yn groes i bolisi BSC 7 y Cynllun Lleol mabwysiedig.

31.2

LLEOLIAD Y SAFLE: 74 Pendyffryn Road, y Rhyl

WARD: Pendyffryn

CYNGHORWYR Y WARD: Mrs. D.L. King
A.J. Rutherford

RHIF Y CAIS: 45/2021/1058

DISGRIFIAD: Adeiladu estyniadau a newid tŷ annedd

YMGEISWYR: Mr. David Ecclestone o'r cyfeiriad uchod.

32. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion pellach, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Llofnod:

Dyddiad: